# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 2)**
**Y Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad**
**Adroddiad Cynnydd**

**Dyddiad:** 18 Mawrth 2010
**Amser:** 16:00
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Chris Reading, est 8664

## Adroddiad Cynnydd ar y Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 'Yn Gywir i Gymru', a gofyn am gytundeb y Comisiwn ar y camau nesaf, gan gynnwys cyhoeddi Penderfyniad diwygiedig a'r cyfarwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ef.

1.2 Y pwyntiau allweddol i'w hystyried yw:

1.2.1 O dan Cam 1 y cynllun gweithredu, daeth 28 argymhelliad i rym ar 2 Tachwedd 2009. Mae gwaith ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill yn parhau, gyda 21 ohonynt yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010 o dan Cam 2.

1.2.2 Wedi 1 Ebrill 2010, cynigir fod y Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad yn cael ei gynnwys yn Rhaglen y 4ydd Cynulliad (Rh4C).

### 2.0 Argymhellion

**2.1 Gofynnir i'r Comisiwn gynnig sylwadau a chytuno ar Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2010 a'r canllawiau sy'n gysylltiedig ag ef.**

**2.2 Gwahoddir y Comisiwn i gefnogi'r dull arfaethedig o gyflwyno argymhellion Cam 3 a 4 drwy gyfrwng Rh4C.**

**2.3 Gwahoddir y Comisiwn i ystyried y ddarpariaeth gyllidol ar gyfer diogelwch a mynediad i'r anabl i swyddfeydd yr Aelodau, ac i ystyried a fyddai mabwysiadu un o'r opsiynau arfaethedig yn 3.1.3-3.1.5 yn briodol.**

**2.4 Gwahoddir y Comisiwn i gymeradwyo cynnwys adran ar deithio tra ar fusnes pwyllgor, er mwyn egluro'r trefniadau presennol ym Mhenderfyniad 2010, fel yr amlinellir yn 3.1.7.**

**2.5 Gwahoddir y Comisiwn i ystyried yr opsiwn o ohirio gweithredu argymhelliad 85 ynghylch defnyddio ffonau symudol; gweler paragraff 3.4.3 isod.**

**2.6 Yn olaf, gwahoddir y Comisiwn i gytuno ar y disgrifiadau manylach o'r hawliau trosglwyddo arian rhwng Lwfansau'r Aelodau a'r Grŵp, fel y disgrifir yn 10.5.1 o'r Penderfyniad diwygiedig.**

## 3.0 Trafodaeth

### 3.1 Cynllun gweithredu – argymhellion Cam 2

**3.1.1 Mae'r newidiadau i'r Penderfyniad (gweler Atodiad A am y testun llawn) yn gweithredu'r holl argymhellion Cam 2 o 1 Ebrill 2010; ac eithrio argymhellion 12, 15, 16, 22, 47, a 95 (gweler paragraff 3.1.9 isod). Mae'r holl ffigurau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â chyflogau a lwfansau costau ychwanegol wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r cynnydd sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2010 ymlaen; mae cyflogau'r Aelodau a'u staff wedi cael eu cynyddu 1.4 y cant, yn unol â mynegai enillion cyfartalog mis Rhagfyr (Nodyn: Mae'r ffigur hwn yn un dros dro, a gaiff ei ddiwygio pan fydd mynegai gwirioneddol mis Rhagfyr yn cael ei gyhoeddi). Mae lwfansau costau ychwanegol wedi cael eu cynyddu 2.4 y cant, yn unol â'r cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu ym mis Rhagfyr 2009. Caiff newidiadau eraill i'r Penderfyniad eu manylu isod,**

ynghyd â'r argymhelliad priodol gan y panel y maent yn cyfeirio ato.

- Mae 4.1.4, 4.2.2, 4.2.3, 4.4.2, 4.5.2, 7.1.1, 8.1.1 ac 8.2.1 yn datgan bod angen ystyried cost, cynaliadwyedd a gwerth am arian wrth drefnu taith gan Aelodau, eu staff ac aelodau teuluol sy'n gymwys i gael ei ad-dalu gan Gomisiwn y Cynulliad (Argymhellion 88, 91, 93 a 94)

- Mae 9.1.1 yn ymestyn y lleoliadau a ganiateir ar gyfer teithiau tramor ar fusnes y Cynulliad i gynnwys 'unrhyw aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall yr Undeb Ewropeaidd' (Argymhelliad 97)

- Mae 10.1.2 yn datgan nad oes hawl gan Aelod i hawlio am ddefnyddio ei gartref fel swyddfa (Argymhelliad 40)

- Mae 10.2.1 yn cyfyngu'r cyfanswm o lwfans costau swyddfa y gellir ei hawlio ar gyfer hysbysebu cymhorthfa i uchafswm o £1,500 y flwyddyn (Argymhelliad 41)

- Mae 10.2.2 yn datgan bod angen cofrestru offer swyddfa sydd werth dros £50 ar restr eiddo, ac yn esbonio'r trefniadau ar gyfer gwarediad pan fydd Aelod yn gadael ei swydd (Argymhelliad 42)

- Mae 10.2.3 yn cyfyngu gwerth eitemau i'r swyddfa y gellir eu prynu heb ganiatâd o flaen llaw i £750 (Argymhelliad 43)

- Mae 10.2.6 yn disgrifio'r opsiynau sydd ar gael i'r Aelodau wrth hawlio ad-daliadau am gostau galwadau busnes ar eu ffonau symudol (Argymhelliad 85) – gweler hefyd paragraff 3.4.3 isod

- Amlinella 10.6.1–10.6.8 y rheolau fydd angen eu dilyn pan fydd Aelod yn prydlesu, yn isosod neu'n rhannu swyddfa (Argymhellion 36, 37 a 39)

3.1.2 Dylid nodi bod llyfr canllawiau'r Aelodau (Penderfyniadau'r Cynulliad ar Gyflog a Lwfansau'r Aelodau) yn Atodiad 1, yn diwallu gofynion Argymhelliad 46 wrth gyfuno'r rheolau ar

yr holl faterion sy'n gysylltiedig â chymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad mewn un ddogfen.

3.1.3 Yn ogystal â'r newidiadau sy'n ofynnol gan argymhellion uchod y Panel Annibynnol, gwahoddir y Comisiwn i ystyried darparu cyllid ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad sydd â swyddfeydd sydd angen addasiadau i wella diogelwch a mynediad i'r anabl. Ar hyn o bryd, mae adrannau 9.3.1 a 9.4.1 o Benderfyniad (Rhif 2) 2009 yn datgan y bydd y Comisiwn yn talu'r swm sydd dros £2,000 pan fydd unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol yn costio mwy na £2,000. Mae sawl Aelod wedi datgan bod y swm hwn yn rhy llym ac yn awgrymu y dylid ei ailystyried. Dyma'r rhesymau am wneud hyn:

- bod £2,000 yn cynrychioli dros 13 y cant o'r lwfans costau swyddfa. Gan fod y swm yn un mor sylweddol, efallai y caiff Aelodau eu rhwystro rhag gweithredu addasiadau diogelwch neu fynediad pwysig i'w swyddfeydd; a

- bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch yn swyddfeydd yr Aelodau. Yn y misoedd diwethaf mae o leiaf pum Aelod wedi ystyried cyflwyno, neu wedi cyflwyno, mesurau diogelwch gwell yn sgil problemau diogelwch.

3.1.4 Pe bai'r Comisiwn yn bwriadu adolygu'r ddarpariaeth hon, mae'n ymddangos mai'r ddau brif opsiwn fydd:

(1) lleihau'r trothwy o £2,000 i £1,000, neu swm arall sydd yn fwy addas, (uchafswm cost ychwanegol yr opsiwn hwn fyddai £60,000 y flwyddyn - pe bai 60 Aelod yn cael £1,000 ychwanegol o gyllid - ond mae'r gwir gost yn debygol o fod yn llawer is); neu

(2) creu cronfa ychwanegol o arian ar gyfer diogelwch neu fynediad i'r anabl er mwyn i'r Aelodau allu gwneud cais am arian ohoni ar gyfer addasiadau arfaethedig i'w swyddfeydd; er enghraifft, gallai'r cais fod yn ddibynnol ar gael argymhelliad i addasu swyddfa gan Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru.

3.1.5 O'r ddau opsiwn, efallai mai Opsiwn 1 sydd fwyaf addas oherwydd bydd yn caniatáu mwy o gysondeb a thegwch wrth ddyrannu adnoddau. Mae paragraffau 10.3.1, 10.4.1 a 10.4.2 o'r Penderfyniad newydd, felly, yn adolygu'r swm o £2,000 i £1,000, yn amodol ar gytundeb y Comisiwn.

3.1.6 Fodd bynnag, wrth ystyried y mater hwn, efallai y dymuna'r Comisiwn nodi Argymhelliad 35 y Panel Annibynnol, sy'n datgan taw'r uchafswm ddylai fod ar gael i Aelodau ydy £2,000, ac sydd wedi cael ei weithredu'n barod.

3.1.7 Hefyd, gwahoddir y Comisiwn i ystyried cynnwys adran ychwanegol ar deithio mewn cysylltiad â phwyllgorau yn y Penderfyniad. Ar hyn o bryd, ceir sôn am y mater hwn ym mharagraff 4.11 o Benderfyniad (Rhif 2) 2009 yn unig. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn rhoi eglurder digonol, felly gofynnir i'r Comisiwn ystyried a fyddai cynnwys Adran 6 yn y Penderfyniad diwygiedig yn Atodiad A yn fwy addas.

3.1.8 Mae Adrannau 9.5.1 a 10.6.1 o Benderfyniad (Rhif 2) 2009 yn caniatáu trosglwyddiadau o hyd at 25 y cant rhwng Lwfans Costau Swyddfa'r Aelodau a Lwfansau Costau Staff Ychwanegol. Fodd bynnag, ni chyfeirir at drosglwyddiadau i'r Lwfansau Cymorth i Grwpiau. I sicrhau bod yr arferion presennol yn cael eu cynnwys yn y Penderfyniad newydd, gwahoddir y Comisiwn i gymeradwyo paragraff 10.5.1 o'r Penderfyniad, a fyddai'n caniatáu trosglwyddiadau o Lwfansau Costau Staff Ychwanegol yr Aelodau i'r Lwfans Cymorth i Grwpiau.

3.1.9 Nid oes angen newidiadau i Benderfyniad (Rhif 2) 2009 yn ôl yr argymhellion a restrir isod:

- Mae Argymhelliad 12 yn rhoi cyfrifoldeb ar Gomisiwn y Cynulliad i baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad i sefydlu Corff Taliadau Annibynnol statudol i bennu cyfradd tâl Aelodau'r Cynulliad a pharhau i adolygu holl agweddau'r cymorth ariannol. Mae'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer craffu yn ystod cyfnod cyntaf y Mesur arfaethedig eisoes wedi dod i ben. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth priodol wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi clywed tystiolaeth gan y Llywydd a Syr Roger Jones,

ymhlith tystion eraill. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth wedi ystyried y dystiolaeth ac wedi cyhoeddi ei adroddiad. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi clywed tystiolaeth gan y Llywydd ar agweddau cyllidol y Mesur arfaethedig. Cynhelir dadl ar y Mesur arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth.

- Mae Argymhelliad 15 yn ymdrin ag Aelodau yn cofnodi'r amser y maent yn ei neilltuo i gyflogaeth arall. Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr, cytunodd y Comisiwn fod angen gofyn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried y ffordd orau o weithredu argymhelliad 15. Ers hynny, mae'r Llywydd wedi ysgrifennu at gadeirydd y Pwyllgor.

- Mae Argymhelliad 16 yn amodi bod y Comisiwn ac Ymddiriedolwyr Cronfa Pensiynau'r Aelodau yn cael cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd, gyda'r bwriad o gyfyngu'r gyfradd cyfraniadau safonol a ariennir gan y Comisiwn. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi diwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

- Mae Argymhelliad 22 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddefnyddio gwestai sydd wedi cytuno i gynnig gostyngiadau yn unig. Mae trafodaethau â gwestai addas yng Nghaerdydd wedi cychwyn.

- Mae Argymhelliad 45 yn nodi y dylai'r Corff Adolygu Annibynnol gael pwerau i newid y ddarpariaeth ar gyfer costau swyddfa. Gweler statws argymhelliad 12 uchod.

- Mae Argymhelliad 47 yn datgan y dylid rhoi'r rhifo mewn rhestr resymegol pan fydd y cyfarwyddyd ar fandiau cyflog staff yn cael ei adolygu nesaf. Caiff y broses hon ei chyflawni pan fydd y cyfarwyddyd yn cael ei adolygu nesaf.

- Mae Argymhelliad 95 yn datgan y dylai Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau drafod gostyngiadau ar gyfer Aelodau â'r cwmnïoedd hedfan a threnau. Mae'r Tîm Caffael wrthi'n archwilio'r posibilrwydd o gael gostyngiadau, ond byddwn yn parhau i geisio cael y gwerth gorau posibl.

3.2 Cynllun gweithredu: Argymhellion Camau 3 a 4

3.2.1 Caiff Bwrdd Rhaglen y Pedwerydd Cynulliad (Rh4C) a thri bwrdd prosiect arall eu sefydlu. Bydd y byrddau prosiect yn ymdrin â thri phrif faes: Dirwyn i ben, Diddymu a Thrawsnewid; Datblygu a Gwella; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu. Caiff yr holl argymhellion yng nghynllun gweithredu presennol Camau 3 a 4 y Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad eu trosglwyddo i'r bwrdd prosiect Rh4C priodol.

3.3 Dysgu a Datblygu

3.3.1 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori'r Aelodau trawsbleidiol, i drafod yr argymhellion ynghylch dysgu a datblygu, yn gynharach y mis hwn. Cafwyd sawl syniad cadarnhaol gan yr Aelodau oedd yn bresennol - Peter Black AC, Jeff Cuthbert AC, Nerys Evans AC, a David Melding AC. Bu'r Aelodau hyn hefyd yn gofyn am farn ymysg aelodau eu grwpiau pleidiol. Cytunodd y grŵp i ystyried yn benodol sut i ddatblygu proffiliau swyddi i'r Aelodau a rhaglen gynefino arfaethedig yr Aelodau (Argymhellion 72 a 75). Bydd y Grŵp Cynghori'n cyfarfod yn gyson i ystyried y materion hyn ac eraill.

3.4 Ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Cam 2

3.4.1 Cafodd canllawiau drafft i gyd-fynd ag argymhellion Cam 2 (yn atodedig yn Atodiad B) eu dosbarthu ymysg yr Aelodau a'u staff cymorth yn gynnar ym mis Chwefror i wahodd eu sylwadau.

3.4.2 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, mae John Chick wrthi'n trafod â'r grwpiau pleidiol, i roi cyfle i'r Aelodau i fynegi eu barn ar unrhyw agwedd ar y broses o weithredu Cam 2. Bu John a Chris Reading mewn cyfarfod o'r Grŵp Llafur ar 23 Chwefror a chyfarfod o Grŵp y Ceidwadwyr ar 9 Mawrth. Mae John hefyd wedi cynnal sesiynau 'galw heibio' i'r Aelodau.

3.4.3 Cafodd sawl mater ei godi yn y cyfarfod â Grŵp y Ceidwadwyr, gan gynnwys argymhelliad 85 ynghylch

defnyddio ffonau symudol. Dywedodd yr Aelodau fod brawddeg olaf yr argymhelliad hwn yn datgan - *"Disgwylir i Aelodau ddewis un o'r opsiynau hyn ar ddechrau pob Cynulliad."* Er eu bod yn derbyn y rheswm tu ôl i'r argymhelliad, roeddent yn dadlau y dylid gohirio ei weithredu tan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad. Argymhellir y dylid derbyn yr awgrym hwn, ond y dylid gofyn i'r holl Aelodau gyflwyno amcangyfrif realistig o'u defnydd o ffonau symudol at ddibenion busnes dros gyfnod o 3 mis arferol. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i hwyluso dewisiadau'r Aelodau unwaith i'r argymhelliad gael ei weithredu. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i'r Comisiwn drafod cyfradd fwy ffafriol am y 'BlackBerrys' a roddir i Aelodau, i annog eu defnyddio i wneud galwadau busnes.

3.4.4 Trafodwyd y canllawiau ar weithredu Cam 2 gan Grŵp Cynghori Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn ei ail gyfarfod ar 12 Chwefror, a chan Grŵp Gweithredol Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror.

3.5 Menter Gwasanaeth Safon Diemwnt i Gwsmeriaid

3.5.1 Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wrthi'n datblygu menter (Gwasanaeth Safon Diemwnt i Gwsmeriaid) i wella safon y gwasanaeth a roddir i Aelodau, a'r rhai eraill sy'n derbyn gwasanaethau, ar draws y Cynulliad. Mae pedwar cam y fenter hon yn ymwneud ag adolygu adnoddau a gallu o fewn timau; sicrhau bod timau yn deall anghenion eu cwsmeriaid; hyfforddi timau i ddeall beth yw gwasanaeth safon diemwnt i gwsmeriaid; a meithrin diwylliant yn ein timau sy'n ffocysu ar gwsmeriaid a gwelliant parhaol. Y bwriad yw cwblhau'r cyfnod prawf yn y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ym mis Mai, wedyn ymestyn y prawf ar draws meysydd gwasanaeth eraill trwy gydol y flwyddyn hon. Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ymgynghori â'r Aelodau a'u staff cyn bo hir ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn - gall unrhyw Aelod sydd â diddordeb arbennig mewn rhoi adborth gysylltu â John Chick.